

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

Yr Ystad Ddiogeled: oedolion ag anghenion gofal a chymorth mewn carchar, mangre a gymeradwywyd a llety mechnïaeth, a phlant ag anghenion gofal a chymorth mewn llety cadw ieuencid, carchar, mangre a gymeradwywyd neu llety mechnïaeth



Deall y Ddeddf

#DeallyDdeddf

www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

Mae angen cyflwyno newidiadau sylweddol i'r ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cynllunio, comisiynu a'u darparu er mwyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

O fis Ebrill 2016 ymlaen, bydd awdurdodau lleol yng Nghymru'n gyfrifol am asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth:

- Oedolion mewn yr ystad ddiogeledd yng Nghymru
- Plant o Gymru sydd mewn yr ystad ddiogeledd yng Nghymru neu Loegr
- Rhai plant o Loegr sydd mewn yr ystad ddiogeledd yng Nghymru.

DS Mae'r ystad ddiogeledd yn cynnwys carchar, mangre a gymeradwywyd, llety mechnïaeth a llety cadw ieuencid.

BETH SYDD YN YR ADRAN HON?

Amlinelliad o gynnwys y Côd Ymarfer mewn perthynas â chyfrifoldebau awdurdodau lleol ar gyfer oedolion mewn carchar, mangre a gymeradwywyd a llety mechnïaeth, a phobl ifanc mewn llety cadw ieuencid.

Rhagor o wybodaeth a dolenni i adnoddau dysgu perthnasol.

Cymysgedd o wahanol ddeunyddiau yn cynnwys cyflwyniadau, adroddiadau ymchwil a gwerthuso, briffiau, fideos a dolenni i wefannau defnyddiol eraill.

Beth mae'r codau ymarfer yn ei ddweud am oedolion mewn carchar, mangre a gymeradwywyd a llety mechniaeth, a phobl ifanc mewn llety cadw ieuenctid?

Y Côt Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 11 (Amrywiol a Chyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Côt').

Mae Pennod 1 o'r Côt Ymarfer mewn perthynas â Rhan 11 yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol o dan y Ddeddf ar gyfer:

- Oedolion ag anghenion gofal a chymorth mewn carchar, mangre a gymeradwywyd a llety mechniaeth yng Nghymru (gan gynnwys y rhai dros 18 oed mewn llety cadw ieuenctid)
- Phlant ag anghenion gofal a chymorth mewn llety cadw ieuenctid, carchar, mangre a gymeradwywyd neu llety mechniaeth yng Nghymru a Lloegr

Bwriad y Ddeddf yw sicrhau mwy o ddilyniant gofal a chymorth i unigolion:

- Cyn iddynt fynd i'r ystâd ddiogel
- Tra byddant yn cael eu cadw yn y ddalfa
- I'w helpu i gynllunio ar gyfer ailsefydlu
- I'w cefnogi pan fyddant yn cael eu rhyddhau

Mae'r ystad ddiogeledd yn cynnwys carchar, mangre a gymeradwywyd, llety mechniaeth a llety cadw ieuenctid.

Mae'r adran hon yn amlinellu cynnwys Pennod 1 y Côt a dylid ei darllen ar y cyd â'r Côt Ymarfer a'r Ddeddf ei hun.



Cynnwys Pennod 1

Mae Pennod 1 y Côd yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Dehongli a diffiniadau.
- Dyletswyddau awdurdodau lleol:
 - mewn perthynas ag oedolion ag anghenion gofal a chymorth sy'n cael eu cadw mewn yr ystad ddiogeled
 - mewn perthynas â phlant ag anghenion gofal a chymorth sy'n cael eu cadw mewn ystadau diogeled (mae tabl 1 y Côd yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas â phreswylfa arferol y plentyn, statws y plentyn a lle mae'n cael ei gadw).
- Pontio i fod yn oedolyn mewn yr ystâd diogeled.
- Oedolion o Gymru mewn ystadau diogeled yn Lloegr.
- Hygludedd a threfniadau trawsffiniol.
- Esemptiadau o ran plant ac oedolion o dan y Ddeddf pan fyddant yn cael eu cadw mewn ystadau diogeled (h.y. mewn perthynas â statws ffurfiol fel gofalwr, hawl i daliadau uniongyrchol, ffafrio llety penodol a gwarchod eiddo).
- Gweithio mewn partneriaeth, yn cynnwys y gofyniad i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â'u partneriaid mewnol ac allanol; trefniadau aml-asiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd; cynadleddau asesu risg aml-asiantaethol; y gofyniad i awdurdodau lleol sydd ag ystad ddiogeled o fewn eu ffiniau i drefnu memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhyngddyn nhw, Gwasanaethau Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd (NOMS)/Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid.
- Diwallu anghenion gofal a chymorth (yn cynnwys asesiadau poblogaeth; gwasanaethau ataliol; gwybodaeth, cyngor a chymorth; eiriolaeth; asesiad; cymhwysedd; cynllunio gofal; a chyfarpar ac addasiadau).
- Diogelu (yn cynnwys y berthynas rhwng Byrddau Diogelu ac ystadau diogel a'r gofynion mewn perthynas â diogelu oedolion a diogelu plant).
- Agweddau ar ofal (yn cynnwys gofal diwedd oes a gofal iechyd parhaus y GIG).
- Rhannu gwybodaeth; codi ffioedd; cwynion; cydweithredu ag arolygiaethau ac ymchwiliadau; a threfniadau pontio ar ôl 2016.

Mae Atodiad 1 y Côd Ymarfer yn cynnwys amlinelliad o ganllawiau perthnasol eraill, codau ymarfer a gwybodaeth bellach.

Mae canllawiau atodol yn cefnogi'r Côd Ymarfer ar Ran 11 yn cynnwys rhagor o wybodaeth ac mae atodiadau i'r canllawiau'n cynnwys y llwybrau cenedlaethol perthnasol ar gyfer oedolion a phobl ifanc mewn ystadau diogeled.

Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Mae'r adran hon yn defnyddio'r adnoddau a nodwyd yn y Côd Ymarfer (Atodiad 1) a ffynonellau eraill yn cynnwys y rhai a awgrymwyd gan sefydliadau partner yng Nghymru.

Mae'n cynnwys deunyddiau a all fod yn ddefnyddiol i ddatblygu asesiadau poblogaeth, yn ogystal ag i gynllunio rhaglenni hyfforddi i'r rhai sy'n gyfrifol am gefnogi unigolion tra byddant mewn ystadau diogeledd ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Mae'r Hyb Gwybodaeth a Dysgu yn cynnwys adnoddau i gefnogi'r sawl sy'n gweithio yn yr ystad ddiogeledd, gan gynnwys adran ar **Asesu a Diwallu Anghenion yn yr Ystad Ddiogeledd**. Mae hyn yn cynnwys:

- **Deunyddiau lefel A** – sy'n darparu trosolwg o Bennod 1, Rhan 11 o'r Ddeddf (oedolion a phlant yn yr ystad ddiogeledd), crynodeb o'r negeseuon allweddol a throsolwg o'r newidiadau
- **Deunyddiau lefel B** – i bobl sy'n gweithio gydag oedolion yn yr ystad ddiogeledd i'w helpu i roi'r newidiadau ar waith
- **Modiwl e-ddysgu**
- **Astudiaethau achos**
- **Briff** ar y cyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol sydd heb ystad ddiogeledd yn eu hardal.

Mae'r adran ar yr Hyb ar **Weithio gyda Phobl mewn Sefydliadau Diogel** yn cynnwys:

- Arweiniad ychwanegol i gefnogi **Rhan 11 o'r Côt Ymarfer – Diwallu Anghenion Pobl sydd yn yr Ystad Ddiogeledd**, gan gynnwys: proffil o anghenion – oedolion a phobl ifanc; cefndir i reolaeth ystadau diogeledd; darpariaeth ar gyfer oedolion yn yr ystad ddiogeledd yng Nghymru ac yn Lloegr; darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc dan 18 oed yn yr ystad ddiogeledd yng Nghymru ac yn Lloegr; teuluoedd pobl sydd yn yr ystad ddiogeledd; adsefydlu a throsoglwyddo; partneriaethau; goblygiadau'r gweithlu; adnoddau; a gofal iechyd.
- Mae **oedolion yn yr ystad ddiogeledd** yn cynnwys siartiau llif ar y llwybr gofal a chymorth yn yr ystad ddiogeledd; cyflwyniadau gan Isadran Polisi Tai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol; y Cwmni Adsefydlu Cymunedol ar Drawsnewid Adsefydlu; cyflwyniad Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ar safleoedd a gymeradwywyd yng Nghymru; a dolen i ganllawiau ar leoliadau ar draws y ffin y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth.
- Mae **plant a phobl ifanc yn yr ystad ddiogeledd** yn cynnwys cyflwyniad Llywodraeth Cymru; llwybr gofal a chymorth cenedlaethol i blant a phobl ifanc yn yr ystad ddiogeledd, a siartiau llif cysylltiedig; a chyflwyniad gan Barnardo's Cymru ar effaith carchariad riant ar blant a phobl ifanc.
- **Adnoddau fideo** yn cynnwys Reversible Writing, sef ffilm gan Families Outside o safbwynt dyn ifanc sydd â thad yng ngharchar, ac Invisible Walls, cynhyrchiad gan G4S am fenter sy'n ceisio cryfhau clymau teuluol pan gaiff aelod o'r teulu ei garcharu.

Mae gan awdurdodau lleol bwerau i gadw plentyn yn erbyn ei ewyllys dan amgylchiadau penodol, o ran ei ddiogelwch ei hun neu ddiogelwch eraill. Mae llety diogel i blant yn cael ei lywodraethu gan Adran 119 o **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** a **Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015**. Mae'r canllawiau perthnasol yn **Rhan 6 o'r Côt Ymarfer** ar dudalennau 142-151 (paragraffau 707-758).

Dylid nodi bod rhai o'r adnoddau canlynol wedi eu cynhyrchu cyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn tynnu sylw at faterion y mae'r Ddeddf a'r codau ymarfer yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

Roedd adroddiad gan Age UK (2011), **Supporting Older People in Prison: Ideas for Practice**, yn crynhoi canfyddiadau nifer o adroddiadau ymchwil ac arolygu oedd ar gael ar y pryd gan ddod i'r casgliad bod tystiolaeth i ddangos bod carcharorion hŷn:

- Yn cael eu cadw mewn cyfundrefn a gynlluniwyd ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn anabl lle mae'r boblogaeth yn bobl ifanc yn bennaf.
- Yn boblogaeth sy'n cydymffurfio ar y cyfan.
- Yn profi lefelau gwael o ymgysylltu rhwng carchardai ac asiantaethau lleol, yn enwedig adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
- Heb unrhyw bolisi neu ganllawiau penodol ar eu cyfer sy'n cefnogi trefniadau comisiynu effeithiol ar gyfer eu hanghenion, gan arwain at ddrwsych ledled y system ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth.
- Yn cael eu cefnogi gan staff carchardai nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant i ddiwallu anghenion pobl hŷn.
- Yn cael llawer o broblemau iechyd cronig sy'n effeithio ar eu gallu i ymdopi mewn carchar ac yn y gymuned, yn enwedig problemau iechyd meddwl fel iselder.

Canfu adroddiad a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, ADASS, y Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Revolving Doors (2012), **Making the Difference: The Role of Adult Social Care Services in Supporting Vulnerable Offenders**, fod:

- 39% o droseddwyr sy'n oedolion, oedd dan oruchwyliaeth mewn un ardal brawf, â chyflwr iechyd meddwl cyfredol, ac roedd gan 49% hanes o broblemau iechyd meddwl (Brooker et al, 2011).
- 75% o droseddwyr sy'n oedolion wedi cael diagnosis deuol o broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Troseddwyr, 2009).
- 7% o droseddwyr sy'n oedolion ag IQ sy'n is na 70 a 25% ag IQ rhwng 70-79 (Mottram, 2007). Mae'r adroddiad yn awgrymu bod yna gydnabyddiaeth gyffredinol bod gan rhwng 5 a 10% o'r boblogaeth droseddwyr anabledd dysgu.
- 15% o garcharorion newydd eu dedfrydu wedi dweud eu bod yn ddigartref cyn cael eu cymryd i'r ddalfa, dywedodd 37% y byddent angen cymorth i ddod o hyd i le i fyw ar ôl cael eu rhyddhau, a dywedodd 60% y byddai cael lle i fyw yn eu helpu i beidio troseddu eto (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2012).
- 40% o bobl ifanc yn y ddalfa wedi bod yn ddigartref cyn hynny (Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid, 2007).
- 43% o blant a phobl ifanc sydd ar orchmynion cymunedol ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl (Y Comisiwn Gofal Iechyd, 2009).
- 25% o blant a phobl ifanc sy'n troseddu ag IQ sy'n is na 70 (Harrington a Bailey, 2005), a bod gan 60% anawsterau cyfathrebu (Bryan, Freer a Furlong, 2007).

Mae **Asesiad o Anghenion Iechyd Carchar**, a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2013) yn awgrymu mai **dim ond 8% o'r 3,300 o ddynion sydd mewn carchar yng Nghymru sydd ddim yn dioddef** o unrhyw fath o broblem iechyd meddwl, yn cynnwys anhwylder personoliaeth (tua 1,800), seicosis gweithredol (tua 200), anhwylder niwrotig (tua 1,200), problemau alcohol (tua 1,800) a defnyddio cyffuriau cyn dod i'r carchar (tua 1,800). Mae'r adroddiad yn cydnabod nad yw'r amcangyfrifon hyn yn fanwl gywir ac nad ydynt yn ystyried oedran neu gategori diogelwch carchardai ac ati.

Dangosodd prosiect a gyflawnwyd gan Adran Cymru y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i broffilio **Pobl Ifanc sy'n Droseddwr Cyson yng Nghymru** (2012) nad oedd gan lawer o bobl ifanc oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol unrhyw gymwysterau o gwbl a'u bod wedi'u hatgyfeirio i wasanaethau iechyd meddwl. Roedd dros draean ar, neu wedi bod ar, y gofrestr amddiffyn plant, wedi dianc neu aros oddi cartref, ac yn bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Choleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith gyda'i gilydd wedi cyhoeddi cyngor ar ymarfer, **Speech, Language and Communication Needs (SCLN) in the Youth Justice System** (2015).

Mae Adolygiad Harris (2015), **Changing Prisons, Saving Lives**, yn adroddiad gan yr adolygiad annibynnol i hunanladdiad yn y ddalfa ymysg pobl ifanc 18-24 oed yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar 87 o bobl ifanc a fu farw rhwng mis Ebrill 2007 a mis Rhagfyr 2014, ac yn tynnu sylw at nifer o ffactorau posibl o ran bod yn agored i niwed:

- **Datblygiad ac aeddfedrwydd yr unigolyn** – “Individuals mature at different rates, and many young adults in the criminal justice system exhibit developmental levels more characteristic of a far younger age group” (dyfyniad gan y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol, paragraff 4.8).
- **Profiadau bywyd** – “There is a wealth of evidence to indicate that the majority of children and young people in the youth justice system in England and Wales come from the most deprived and disadvantaged families and communities, and their lives are characterised by disruption, neglect and impoverished social landscapes. Many have experienced abuse and neglect and those who move through both the welfare and youth justice systems into custodial institutions tend to have particularly complex needs” (Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr, paragraff 4.23).
- **Colled a galar** – Roedd y Swyddfa Comisiynydd Plant hefyd yn nodi bod “traumatic loss and separation figure highly among children and young people who offend” (paragraff 4.24) a chyfeiriodd yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai at “evidence from studies... that children who take their own lives have often experienced the untimely death of close relatives”. Dywedodd The Howard League bod yna “a surprising high number of young adults in custody (who) are grieving the loss of loved ones” (paragraff 4.24).
- Roedd sylwadau eraill yn disgrifio pryder am nifer yr oedolion ifanc yn y ddalfa sydd wedi **cael anafiadau i'r ymennydd** a/neu niwro-anabledd ac sydd â hanes o **gamddefnyddio sylweddau** (paragraff 4.26).
- **Menywod ifanc** – Roedd sylwadau INQUEST yn nodi bod “many young women enter the criminal justice system as a result of unmet welfare needs including neglect, abuse and poverty” ac roedd sylwadau Women in Prison yn awgrymu bod “women have higher rates of trauma, victimisation, substance abuse and mental health issues” (paragraff 4.28). Gall pwysau ychwanegol i fenywod gynnwys cael eu gwahanu oddi wrth blant a gwahaniaethu “caused by a criminal justice system designed for its majority male population” (paragraff 4.29). Canfu dadansoddiad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar wahaniaethau rhwng carcharorion y ddau ryw mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn 2013 fod iechyd meddwl carcharorion sy'n fenywod yn waeth na menywod yn y boblogaeth yn gyffredinol a charcharorion sy'n ddynion. Roedd hyn yn wir yn achos hunan-niweidio, ceisio lladd eu hunain, seicosis, pryder ac iselder¹.

1 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013) Gender Differences in Substance Misuse and Mental Health Amongst Prisoners – Canlyniadau astudiaeth cohort hydredol o garchorion gan y Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR). Cyfres Dadansodol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

- **Grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig** – Roedd 15 o'r 87 (17%) o bobl ifanc oedd wedi marw wedi dweud eu bod yn dod o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Canfu adolygiad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2014) o argymhellion Zahid Mubarek fod grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n anniogel na phobl wyn².
- **Gadawyr gofal** – Mae Adolygiad Harris yn awgrymu bod diffyg data dibynadwy'n arwain mae'n debyg at danamcangyfrif nifer y plant a phobl ifanc yn y ddalfa sydd wedi cael profiad o ofal ac mai anaml iawn yr oedd rôl rianta gorfforaethol i'w gweld ar gyfer pobl ifanc yn y ddalfa sydd wedi gadael gofal. Amcangyfrifodd NOMS fod 27% o'r boblogaeth droseddwr sy'n oedolion yn bobl ifanc sydd wedi gadael gofal (paragraff 4.45 i 4.57).
- **Iechyd meddwl ac anawsterau dysgu** – Ynghyd â phrofiad cynnar o ofal y wladwriaeth mae "mental health issues, learning difficulties and disabilities are key factors underpinning vulnerability" (paragraff 4.20 a 4.58 i 4.62).
- Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, roedd yr adolygiad yn pwysleisio hefyd bod **"all young adults in custody are potentially vulnerable"** ac angen gofal arbennig.

Mae Adolygiad Harris hefyd yn sôn am elfennau o brofiad y carchar ei hun sy'n debygol o effeithio'n andwyol ar bobl ifanc, er enghraifft:

- **Trosglwyddo** rhwng sefydliadau carchar – yn cynnwys rhwng sefydliadau cyfiawnder ieuentid ac ystadau diogeled oedolion – dywedwyd bod y cyfnod hwn yn gyfnod pan oedd oedolion ifanc yn agored iawn i niwed, er enghraifft "despite the fact maturity is a gradual process, the support that is offered young people who are under 18 virtually disappears overnight once they turn 18" (paragraff 4.78). Gall trosglwyddo fod yn anodd iawn pan fydd yn golygu symud **ymhellach i ffwrdd o gartref** neu oddi wrth ffrindiau mewn carchar sydd wedi cynnig cymorth iddynt.
- **Rhannu gwybodaeth** – "An area of repeated failure relates to the transfer of information" yn enwedig mewn perthynas â gwybodaeth feddygol ac asesiadau risg. Amlygwyd hyn fel problem arbennig i bobl ifanc agored i niwed sy'n trosglwyddo o ystadau diogeled (paragraff 4.84).
- **Dyddiau cynnar yn y ddalfa** – Mae'r profiad cychwynnol yn y ddalfa a'r cyfnod ar ôl trosglwyddo i'r ystadau diogeled yn gallu bod yn un pan fo pobl yn agored iawn i niwed – digwyddodd 21% o'r marwolaethau a gofnodwyd yn ystod yr wythnos gyntaf a bron i hanner (48%) cyn pen tri mis.
- **Trefnu cyswllt cynnar gyda theulu a ffrindiau** – Gwelwyd bod hyn yn ffactor amddiffynnol sylweddol, ac roedd oedi o ran cael cysylltiad yn achosi straen a gofid (paragraff 4.103).
- **Perthynas rhwng staff a charcharorion** – "There was strong agreement that staff capacity to form and sustain high quality staff-prisoner relationships supported SID (self-inflicted death) prevention" (paragraff 4.108).

Cynhaliodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (ADASS) yn Lloegr arolwg o **Social Care Activity in Prisons and Approved Premises – Quarter 1 2015-16** (yn y tri mis cyntaf ar ôl gweithredu Deddf Gofal 2014).

² Arolygiaeth Carchardai EM (2014) Report of a Review of the Implementation of the Zahid Mubarek Inquiry Recommendations: A Thematic Report. Llundain: HMIP.

Er bod y canfyddiadau yn ymwneud â Lloegr, efallai y byddant yn ddefnyddiol fel gwersi wrth weithredu Rhan 11 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn seiliedig ar ddata ar gyfer 79 o'r 115 o garchardai yn Lloegr, roedd y prif ganfyddiadau'n cynnwys y canlynol:

- Derbyniodd awdurdodau lleol 10 atgyfeiriad neu lai gan 60 o'r 79 carchardai yn ystod y tri mis cyntaf a darparodd 41 o'r 79 pump atgyfeiriad neu lai. Awgrymodd ADASS pan fo nifer yr atgyfeiriadau'n isel, y dylai awdurdodau lleol ystyried cyfarfod â staff carchardai i sicrhau eu bod yn deall rôl awdurdodau lleol a gwerth gofal cymdeithasol ac y gallai NOMS ystyried y rhesymau dros y gwahaniaethau sylweddol mewn cyfraddau atgyfeirio.
- Roedd yr arolwg yn dangos cyfraddau atgyfeirio isel iawn ar gyfer carcharorion ag anableddau dysgu a chyflyrau ar y sbectrwm awtistig: roedd bron 88% o atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol o garchardai yn ymwneud â charcharorion ag anableddau corfforol, a dim ond 4.3% ar gyfer anableddau dysgu a 0.4% ar gyfer cyflyrau ar y sbectrwm awtistig. Dywed yr adroddiad bod gwaith ymchwil yn amcangyfrif bod canran y boblogaeth garchardai ag anabledd dysgu neu gyflwr ar y sbectrwm awtistig yn amrywio o 7% i 30%: "the suggestion that there is an underestimation of such individuals would appear to have some validity... Local authorities, prisons and healthcare providers are advised to consider how effective local approaches are in respect of this population".
- Mae'r adroddiad yn awgrymu y **gall** y lefel isel o atgyfeiriadau ar gyfer ieuchyd meddwl (7.1% yn gyffredinol) a chamddefnyddio sylweddau (0.4%) adlewyrchu'r ffaith fod gwasanaethau pwrpasol ar gyfer y cyflyrau hyn i'w cael mewn carchardai ond roedd yn pwysleisio'r angen i fod yn hyderus nad yw anghenion gofal cymdeithasol y carcharorion hyn yn cael eu hanwybyddu. Ymhellach, dywed yr adroddiad:
"In the community there is well established practice of health and social care professionals working together in an integrated way to respond to the needs of people with mental health issues, substance misuse, learning disabilities or autistic spectrum conditions but this is not the experience in prisons in recent years. Local authorities and prison health care commissioners and providers might wish to explore how a more integrated approach to meeting prisoners with these needs might be developed."
- Amlygodd yr adroddiad rai pryderon ehangach am drothwyon hefyd: er bod 74% o atgyfeiriadau yn arwain at asesiad gofal a chymorth roedd hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng grwpiau cleientiaid a rhwng carchardai. Yn y cyd-destun hwn, dywed yr adroddiad bod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i:
"Provide advice, information and guidance to citizens to enhance their well-being and provide preventive support to reduce either the timing or severity of social care needs developing later. Local authorities need to assure themselves that they understand what this means in the context of prisoners and are providing it and not setting so high a threshold for eligibility for a care and support assessment that it effectively denies prisoners access to this valuable entitlement."
- Mae'r adroddiad yn awgrymu hefyd y gallai awdurdodau lleol, carchardai a darparwyr gofal ieuchyd adolygu eu trefniadau darparu gwybodaeth i garcharorion fel y gallant atgyfeirio eu hunain am asesiad ac i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch i'w galluogi i wneud hynny.

Yn 2015, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi adroddiad thematig ar **A Joint Inspection of the Treatment of Offenders with Learning Disabilities within the Criminal Justice System – Phase 2 in Custody and the Community**, a fynegodd bryderon difrifol am adnabod carcharorion ag anabledd dysgu, neu gyflwr ar y sbectrwm awtistig a gallu carcharorion i ymateb i'w anghenion penodol, eu cadw'n ddiogel a darparu cymorth therapiwtig priodol.

Canfu arolwg a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar **Social Care Needs in Prisons** (2014) yn Lloegr cyn gweithredu Deddf Gofal 2014 fod:

- Llai nag 1% (0.9%) o gyfanswm poblogaeth carchardai â mwy nag un angen gofal personol.
- Roedd gan tua 5.5% o garcharorion 50 oed neu drosodd un neu fwy o anghenion gofal personol, o gymharu â 0.2% o garcharorion o dan 50 oed.
- Roedd cyfran y carcharorion ag anghenion gofal personol yn cynyddu gydag oedran, gyda 12.6% o bobl 65-74 oed a 22.7% o'r rhai 75 oed a throsodd ag anghenion gofal personol.
- Cymorth i symud, cael bath, bwyta ac yfed ac ymolchi oedd yr anghenion gofal personol a nodwyd fwyaf ar gyfer carcharorion 50 oed neu drosodd.
- Y dull mwyaf cyffredin o staffio ar gyfer diwallu anghenion gofal personol oedd drwy Wasanaeth Gofal Iechyd y Carchardai ond roedd **mwyafrif yr oriau o ddarpariaeth gofal personol yn cael eu cyflawni gan garcharorion eraill.**

Dywedodd yr awduron bod **cyfyngiadau i ymatebion yr holiadur yn golygu mai dim ond fel rhai dangosol ac y dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigurau hyn.**

Dylid cymharu canfyddiadau'r arolwg hwn ynghylch y lefelau o angen a nodwyd gyda chanfyddiadau adroddiad ADASS uchod mewn perthynas â'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael, yn ogystal â gwybodaeth a chanfyddiadau mewn carchardai o rôl awdurdodau lleol a gwerth gofal cymdeithasol.

Cynhyrchodd **Cynhadledd Tai a Gofal Cymdeithasol i Garcharorion** (Chwefror 2015), a ariannwyd gan Ganolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, amrywiaeth o ddeunyddiau defnyddiol yn cynnwys astudiaethau achos, cofnodion llais defnyddwyr ac amryw o gyflwyniadau ar oblygiadau Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan Lywodraeth Cymru, NOMS Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arferion da gan sefydliadau'r trydydd sector, carchardai, sefydliadau adsefydlu cymunedol ac adrannau tai awdurdodau lleol.

Mae Adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn amlinellu'r categorïau angen blaenoriaethol ar gyfer y rhai sydd angen cymorth ychwanegol ac, o ganlyniad i Adran 70, nid yw'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn gymwys yn awtomatig mwyach am angen blaenoriaethol. Wrth ymateb i'r pryderon am y newid hwn mewn deddfwriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar ar y **Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartref i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel.**

Mae Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol y DU wedi cyhoeddi cyfarwyddyd ar **Adult Social Care and Safeguarding**, sy'n berthnasol i'r Ddeddf Gofal 2014 yn Lloegr ond a fydd yn cael ei ddiwygio i ystyried gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Skills for Care wedi cyhoeddi briff ar **Care and Support for People in Prisons and Approved Premises** o dan Ddeddf Gofal 2014 yn Lloegr.

Deddfwriaeth, canllawiau, codau ymarfer a gwybodaeth ychwanegol arall

Mewn ymateb i **Adroddiad Comisiwn y Gyfraith** (argymhelliad 69, tudalen 197, Adran 11.133) mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU, wedi cytuno i'w gwneud yn glir y dylid cynnwys carcharorion yn eu deddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Gofal 2014.

Mae **Deddf Gofal 2014 a'r canllawiau atodol cysylltiedig** yn darparu cyd-destun defnyddiol i garcharorion sy'n dychwelyd i Gymru o garchardai a sefydliadau diogel eraill yn Lloegr.

Mae **Deddf Gofal 2014 – Adran 76 Carcharorion a phobl mewn mangreoedd a gymeradwywyd ac ati** yn amlinellu darpariaethau yn y Ddeddf Gofal sy'n darparu gofal a chymorth i garcharorion mewn ystadau diogel yn Lloegr (mae hyn yn cynnwys oedolion mewn mangreoedd a gymeradwywyd a llety mechnïaeth arall, yn ogystal â phobl dros 18 oed mewn sefydliadau troseddwr ifanc, cartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel).

Mae **Deddf Tai (Cymru) 2014** yn darparu manylion y dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau digartrefedd sy'n canolbwyntio ar atal, gofynion cofrestru a thrwyddedu newydd ar gyfer landlordiaid sector preifat, pwerau i awdurdodau lleol gynyddu ffioedd y dreth gyngor ar ail gartrefi a gofynion i ddiwallu anghenion llety sipsiwn a theithwyr. Daeth y Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2015.

Mae **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010** yn amlinellu trefniadau i helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl trwy:

- wella mynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol
- gwella cynlluniau gofal a thriniaeth ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

Mae **Canllawiau Gweithredu Polisi ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Carcharorion 2014** yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i garcharorion ac yn nodi rhai materion y bydd angen eu trafod.

Mae **Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr 2012** yn amlinellu darpariaeth yn ymwneud â chymorth cyfreithiol, mechnïaeth a remand arall; darpariaeth ynglŷn â chyflogi, talu a throsglwyddo pobl sy'n cael eu cadw mewn carchardai a sefydliadau eraill; darpariaeth ynglŷn â hysbysiadau cosb am ymddygiad afreolus a rhybuddion; ac ymysg dyletswyddau eraill, diwygio Adran 76 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (hunanamddiffyniad). Mae Adran 104 yn nodi y dylai plentyn sydd ar remand mewn llety cadw ieuencid gael ei drin fel plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod dynodedig.

Mae **Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008** yn amlinellu darpariaeth bellach yn ymwneud â chyfiawnder troseddol (gan gynnwys darpariaeth ynglŷn â'r heddlu) a delio gyda throseddwr a methdalwyr; darpariaeth bellach ynglŷn â rheoli troseddwr; diwygio cyfraith droseddol; ac ymysg dyletswyddau eraill, gwneud darpariaeth bellach ar gyfer mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn.

Mae **Deddf Adsefydlu Troseddwr 2014** yn ymestyn goruchwyliaeth statudol yng Nghymru a Lloegr i oddeutu 50,000 o droseddwr â dedfrydau o lai na 12 mis. Bydd y troseddwr hyn yn treulio eu dedfryd i gyd mewn carchar adsefydlu.

Mynediad at Gyfiawnder. Llyfr canllaw aml-asiantaethol sy'n cefnogi rheolaeth ymatebol a phriodol oedolion ag anabledd dysgu yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2013. Y bwriad yw y bydd yn helpu comisiynwyr, cynllunwyr ac ymarferwyr ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol yng Nghymru i wella darpariaeth gwasanaethau.

Mae **Strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru: 2014-2016** yn darparu cyfrwng ar gyfer gwella cydweithredu, gan sicrhau y gall adnoddau gael eu targedu i'r eithaf. Un o amcanion allweddol y strategaeth yw rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod troseddwy'r yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n briodol i'w hanghenion.

Mae **Deddf Plismona a Throsedd 2009** yn ymestyn y mandad i lunio a gweithredu strategaeth i leihau aildroseddu i awdurdodau lleol fel 'awdurdod cyfrifol o fewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs)'. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i ardaloedd lleol ddeall proffiliau troseddwy'r, y ffyrdd y gall gwasanaethau fynd i'r afael ag anghenion troseddwy'r ac, yn hanfodol, lle y dylid targedu adnoddau er mwyn lleihau aildroseddu.

Gorchymyn Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr 2000. Ym mis Ebrill 2000, ysgwyddodd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr gyfrifoldeb dros gomisiynu llefydd mewn ystadau diogel i blant a phobl ifanc yng Nghymru a Lloegr, a'u lleoli ar ôl iddynt gael eu rhoi ar remand neu eu dedfrydu gan y llysoedd.

Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf. Strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i wella gwasanaethau ar gyfer troseddwy'r ifanc neu'r rhai sy'n wynebu risg o drosedd.

Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998. Gofynion y Ddeddf yw y bydd timau troseddau ieuenctid yn cynnwys o leiaf un o bob un o'r canlynol: (a) swyddog bwrdd prawf lleol neu swyddog darparwr gwasanaethau prawf; (b) gweithiwr cymdeithasol awdurdod lleol; (c) swyddog yr heddlu; (d) person a enwebir gan fwrdd iechyd lleol y mae ei ardal yn rhan o ardal yr awdurdod lleol; (e) person a enwebir gan y prif swyddog addysg a benodir gan yr awdurdod lleol.

Egwyddorion a chanllawiau trosglwyddo o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion (Cymru). Gwella'r ffordd mae timau troseddau ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd.

Canllawiau ar y Cyd ar Iechyd Meddwl yn y System Cyfiawnder Ieuenctid. Canllawiau gweithredu polisi i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Safonau ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, timau troseddau ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y system gyfiawnder.

Manylion Cyswllt

Cyngor Gofal Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Ffacs: 029 2038 4764
Minicom: 029 2078 0680

E-bost: hyb@cgcyrmru.org.uk
www.cgcyrmru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/

 [gettheact](#)  [@DeallyDdeddf](#)

© 2017 Cyngor Gofal Cymru

